| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 TACHWEDD 2017** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2017/18 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 17 Tachwedd 2017 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 16 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 6 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 14 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 0 |
| Disgwyl Adolygiad | 1 |
| Adroddiad Drafft | 0 |
| Adroddiad Terfynol | 28 |
| **Cyfanswm** | **65** |
| | |
| Wedi eu canslo oherwydd lleihad mewn adnoddau | **5** |
| Archwiliadau wei eu casnlo i gyflawni eraill | **1** |

2.2 Targed perfformiad 2017/18 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2018. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |

Diwedd chwarter 4 95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 17 Tachwedd 2017 oedd **43.07%** - allan o'r **65** archwiliad unigol yng nghynllun 2016/17 roedd **28** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Mae dyraniad dyddiau un o'r archwiliadau yn y cynllun gwreiddiol sef "Iechyd a Diogelwch – Cynradd" wedi ei neilltuo i chwe ysgol unigol.

3.2 Yn sgil absenoldeb un aelod o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol am chwe mis, mae yn anorfod i ganslo archwiliadau sydd gyfwerth a 85 diwrnod gwaith. Gweler isod yr archwiliadau a ddetholwyd i beidio eu cynnal ynghyd â'r rhesymeg dros hynny:

- Cronfa'r Degwm (*Economi a Chymuned*) – 5 diwrnod. Nid yw incwm y Gronfa wedi cyrraedd y trothwy incwm ar gyfer cynnal archwiliad sef £25k.
- System Treth Cyngor "Advantage Digital Portal" (*Cyllid*) – 10 diwrnod. Mae'r prosiect yma yn rhan o brosiect ehangach hunan-wasanaeth ac yn ddibynnol ar bryd y caiff y cynllun ei amerlennu i mewn i'r rhaglen waith hunan-wasanaeth.
- Cynllun Lleoli Oedolion (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*) – 15 diwrnod. Cyhoeddwyd adroddiad gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mehefin 2017 ar Gynllun Lleoli Oedolion Gwynedd ac roeddynt o'r farn bod "*proses baru gadarn wedi ei sefydlu. Mae profiad a ffordd o fyw'r swyddogion galluogi a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu paru gan ystyried gweithgareddau cymdeithasol, hobiau, diddordebau hamdden a ffydd....Nid oedd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio i adrodd arnynt*." Ni fyddai archwiliad mewnol pellach yn ddefnydd effeithiol o amser.
- Trefniadau Comisiynu (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*) – 30 diwrnod. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym yn Ebrill 2016, ac mae Adran 9 o'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu cyllidebau cyfun ar gyfer swyddogaethau penodol. Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o drefniadau comisiynu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol ar elfennau penodol megis llety cartref preswyl. Fodd bynnag, mae'r gwaith o ddatblygu cyllidebau cyfun rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru megis dechrau, felly nid oes diben cynnal yr archwiliad hyd y bydd trefniadau cadarnhaol wedi eu sefydlu.
- Iechyd a Diogelwch (Asiantaeth Cefnffyrdd) – 25 diwrnod. Mae'r safon Iechyd a Diogelwch (OHSAS 18001) yn cael ei ddiweddaru yn y flwyddyn newydd gyda ffenestr o dair blynedd i sicrhau cydymffurfiad â'r safon newydd sef ISO 45001. Bydd y safon newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018.

3.3 Roedd 24 diwrnod wedi ei neilltuo ar gyfer archwiliad "Grantiau" yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae'r dyddiau bellach wedi ei neilltuo i ddau grant penodol sef "Teuluoedd yn Gyntaf" a "Grant Cynnig Gofal Plant" – gyda 12 diwrnod yr un wedi ei neilltuo ar eu cyfer.

3.4 Derbyniwyd cais i gynnal adolygiad o drefniadau "Incwm Meysydd Parcio" yn sgil problemau sydd wedi dod i'r amlwg o fewn y Gwasanaeth Incwm, Cyfrifeg a'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd. Mae 15 diwrnod wedi ei neilltuo ar gyfer cynnal yr adolgiad ac felly rhaid canslo archwiliad i ymgymryd â'r gwaith. Penderfynwyd canslo archwiliad "Achrediadau YGC" (15 diwrnod) i ymgymryd â'r adolygiad oherwydd bod yr achrediadau yn destun adolygiadau allanol gan BSI.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2017/18, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-01/2018 | Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol - Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.30** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-09/2018/001 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.34** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2018/002 | System Integredig Dysgu a Datblygu | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.26** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-11/2018 | Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.86** | Disgwyl Adolygiad |
| 1-CORFF-12/2018 | Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.12** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-13/2018 | Gweinyddu Costau Teithio Hunan-wasanaeth | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.69** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-19/2018/001 | Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi | 35.00 | 0.00 | **35.00** | **1.47** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-19/2018/002 | Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | 4.00 | 0.00 | **4.00** | **0.42** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2018 | Diwylliant ac Ymddygiad - Barn y Gweithlu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CPGV-02/2018 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.69** | Adroddiad Terfynol |
| 2-ADN-CGC-DPA/2018cy | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **0.47** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AO-ARL-05/2018 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **15.95** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2018/GY | Grant Gwisg Ysgol | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **11.73** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2018GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.12** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2018GGA | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **13.89** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2018ol16 | Grant Addysg Ôl-16 | 3.00 | 0.00 | **3.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDA03/2018 | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Cynradd ac Uwchradd | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **4.49** | Crewyd Papurau Gwaith |
| EADDA29/2018/2089 | Iechyd a Diogelwch - Ysgol Bro Lleu | 0.00 | 4.10 | **4.10** | **4.51** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA29/2018/2093 | Iechyd a Diogelwch - Ysgol Pentreuchaf | 0.00 | 4.10 | **4.10** | **4.52** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA29/2018/2126 | Iechyd a Diogelwch - Ysgol Abercaseg | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **4.67** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA29/2018/2189 | Iechyd a Diogelwch - Ysgol Dyffryn Ardudwy | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **4.37** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA29/2018/2199 | Iechyd a Diogelwch - Ysgol O M Edwards | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **4.66** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA29/2018/3023 | Iechyd a Diogelwch - Ysgol Llanystumdwy | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **4.64** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2018 | Trefniadau Busnes | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA21/2018 | Incwm Cinio Ysgol | 20.00 | -12.00 | **8.00** | **0.27** | Wedi ei gynllunio |
| EADDA35/2018 | Ysgolion - Cyffredinol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.22** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **AMGYLCHEDD** | | | | | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2018bw | Hylendid Bwyd | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **1.93** | Wedi ei gynllunio |
| BB-YSG-11/2018 | Trwyddedu | 8.00 | 0.00 | **8.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| BA-EID-04/2018 | Manddaliadau | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **1.53** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BA-EID-05/2018 | Cynlluniau Adeiladu Ysgolion - Ysgol Glancegin | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.69** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| DDAT-CC-01/2018 | Tocynnau Mantais Bws | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **5.28** | Crewyd Papurau Gwaith |
| PPE-P-01/2018 | Incwm Meysydd Parcio | 0.00 | 15.00 | **15.00** | **1.69** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2018 | Iechyd a Diogelwch | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei ganslo |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | | | | |
| **Democratiaeth** | | | | | | |
| BB-YSG-18/2018 | Hyfforddi Aelodau Newydd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.18** | Adroddiad Terfynol |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| AW-TG-12/2018tg | Diogelwch Systemau TG | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2018 | Trefniadau Adennill Dyledion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.43** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-10/2018 | Praeseptau | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **7.42** | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AP-PEN-01/2018 | Cronfa Bensiwn - Cyffredinol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AP-PEN-15/2018 | Grantiau Marwolaeth | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.50** | Adroddiad Terfynol |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2018kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **4.81** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2018 | System Treth Cyngor - Advantage Digital Portal | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei ganslo |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2018 | Cronfa'r Degwm | 5.00 | 0.00 | **5.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-03/2018/001 | Storiel - Cau i Lawr y Prosiect | 5.00 | 0.00 | **5.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EDIW-MU-03/2018/002 | Ymweliad Di-Rybudd | 1.00 | 0.00 | **1.00** | **0.91** | Adroddiad Terfynol |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2018/002 | Taliadau Debyd Uniongyrchol Aelodaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.04** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6402/2018 | Canolfan Tennis Arfon | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **9.47** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6443/2018 | Canolfan Hamdden y Pafiliwn | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.96** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6444/2018 | Pwll Nofio Bro Ffestiniog | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **10.09** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6446/2018 | Canolfan Hamdden Glan Wnion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.05** | Adroddiad Terfynol |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-03/2018 | Doc Fictoria | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.05** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| DDAT-AD-02/2018 | Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Busnes** | | | | | | |
| GRH-CD01/2018 | Trefniadau Comisiynu | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2018 | Grant Cefnogi Pobl | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.85** | Adroddiad Terfynol |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GGWAS-H07/2018tel | Teleofal | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.88** | Wedi ei gynllunio |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1333/2018 | Plas Maesincla, Caernarfon | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.27** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1338/2018 | Plas Hafan, Nefyn | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.51** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5-GOF-CART1339/2018 | Plas Ogwen, Bethesda | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.08** | Adroddiad Terfynol |
| GDARP-D07/2018 | Tai Cefnogol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GDARP-D08/2018/tm | Tan y Marian | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.19** | Adroddiad Terfynol |
| GDARP-D08/2018/yf | Y Frondeg | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-D11/2018 | Cynllun Lleoli Oedolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.73** | Wedi ei ganslo |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| 5-GOF-X-PL/2018/001 | Grant Teuluoedd yn Gyntaf | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **9.26** | Crewyd Papurau Gwaith |
| 5-GOF-X-PL/2018/002 | Grant Cynnig Gofal Plant | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **7.86** | Crewyd Papurau Gwaith |
| GGWAS-P05/2018 | Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.24** | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-PLANT8/2018 | Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC 2014 | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.88** | Wedi ei gynllunio |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2018 | Depos | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.72** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-10/2018/001 | Targedau Ailgylchu | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.86** | Crewyd Papurau Gwaith |
| PBW-10/2018/002 | Casglu Gwastraff Gardd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.49** | Adroddiad Terfynol |
| **TAI** | | | | | | |
| **Rhent a Rheolaeth Tai** | | | | | | |
| T-TAI-T01/2018 | Rhestr Aros Tai | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **8.22** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2018 | Statws Cyflogaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.12** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| PYMG-CON/2018 | Achrediadau | 15.00 | -15.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |